**CFA22 Caerdydd Ddwyieithog – Cyngor Caerdydd**

Senedd Cymru | Welsh Parliament

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol | Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Cymraeg i bawb? | Cymraeg for all?**

Ymateb gan: Caerdydd Ddwyieithog – Cyngor Caerdydd | Evidence from: Bilingual Cardiff – Cardiff Council

**1. Beth yw'r prif rwystrau sy'n atal defnydd ehangach o'r Gymraeg mewn ardaloedd â llai o siaradwyr Cymraeg, a beth allai helpu i newid hyn?**

Mae canfyddiad pobl yn chwarae rhan bwysig a hefyd sut caiff unrhyw drafodaeth benodol am y Gymraeg ei fframio.

Pwynt cyffredinol felly o ran terminoleg yr ymgynghoriad: mae gwahaniaethau cynnil ond a allai fod yn rhai go arwyddocaol i unrhyw drafodaeth (neu gynlluniau hybu) yn perthyn i 1) 'ardaloedd â llai o siaradwyr Cymraeg' ; 'ardaloedd lle nad yw'r Gymraeg yn cael ei siarad yn eang' ; ardaloedd dwysedd is – o'u cymharu ag:

2) ardaloedd dwysedd uwch, ardaloedd lle clywir y Gymraeg neu ardaloedd lle mae mwy o siaradwyr Cymraeg.

Er yn addas i rai rhannau o Gymru, nid yw gosod ffrâm ddeuaidd fel hon yn gweddu bob tro i drafod sefyllfa'r Gymraeg yng Nghaerdydd. Mae angen disgrifiadau felly sy'n ystyrlon yn eu cyd-destun penodol.

e.e. Gyda mwyafrif helaeth y boblogaeth yn ddi-Gymraeg a gydag ond ryw 12.2% yn siarad Cymraeg yn rhugl o fewn ffiniau Caerdydd (2021), byddai hynny yn rhoi'r brifddinas ym meddyliau'r rhan fwyaf yng nghategori 1) y disgrifiadau uchod. Ac er bod niferoedd siaradwyr y Gymraeg wedi tyfu wrth i'r brifddinas dyfu dros y degawdau, mae poblogaeth y ddinas gyfan wedi tyfu yn gynt. Ar ben hynny yn y degawd diwethaf mae cyfradd dwf y siaradwyr Cymraeg wedi arafu'n sylweddol. Dyna'r ffrâm mwy negyddol felly.

Eto i gyd, yng Nghaerdydd y ceir y 3ydd nifer fwyaf o siaradwyr Cymraeg o blith awdurdodau lleol Cymru a'r nifer fwyaf o bell ffordd o siaradwyr y filltir sgwâr o blith yr holl awdurdodau lleol. [*Mae dwysedd siaradwyr Cymraeg y filltir sgwâr yng Nghaerdydd dros 10 gwaith dwysedd yr awdurdod â'r nifer mwyaf o siaradwyr, sef Gwynedd]. At hynny, mae rhai cymunedau yn y ddinas lle ceir canran siaradwyr rhugl e.e. Treganna sydd ar 24%. Os ystyrir unrhyw sgil Cymraeg (gan gynnwys deall Cymraeg llafar yn unig,) mae'r ganran yno yn codi i dros 30% (sef 4,600 o drigolion 3+). Mae rhan o Dreganna ym Mharc Fictoria yn cyrraedd canran o 35% ar gyfer siaradwyr rhugl a

43% ar gyfer rhai ag unrhyw sgil Cymraeg. Mae edrych ar y garfan ehangach hon ledled y ddinas yn rhoi 63,000 o drigolion (2021) – sy'n agos iawn i boblogaeth Ynys Môn gyfan.

At hynny gellid ychwanegu bod y patrwm ieithyddol yn wahanol yn y brifddinas (a llawer o'r de-ddwyrain hefyd) – mwy o siaradwyr Cymraeg iau na siaradwyr hŷn – a mwy o siaradwyr sydd o aelwydydd di-Gymraeg – sydd yn wahaniaeth cynnil arall.

Nodwedd arall a berthyn i ddefnydd iaith yma yw'r miloedd o siaradwyr sy'n cymudo i'r gwaith yn ddyddiol o'r tu allan i'r sir, gan chwyddo ymhellach ddwysedd y siaradwyr Cymraeg rai miloedd bob dydd. *Rydym yn cydnabod fodd bynnag bod angen gwaith pellach i ni ddeall yn well union faint a phosibiliadau ychwanegol y ffenomen hon, ond mae'n sicr yn rhan bwysig o'r darlun llawn yn y brifddinas.

Mae bodolaeth a chael data ynghylch y mas critigol o siaradwyr o'r math a amlinellir uchod yn awgrymu y gellid yn rhwydd drafod y ddinas fel petai yng nghategori 2) y termau uchod, oherwydd fel ardal prin o ran twf y Gymraeg, mae'r ddinas yn sicr yn Ardal o Bwysigrwydd Ieithyddol i ddyfodol yr iaith - fel sydd wedi ei nodi yn y datganiad polisi yn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLlN) 2026-36 arfaethedig – fel y gwelwyd yn y Cyfrifiad, mae'n un o'r ardaloedd twf prin gyda bron iawn i 30,000 bellach o'r siaradwyr rhugl yma dan 34 oed.

Yn sicr mae'r dwysedd daearyddol yma o siaradwyr yn cynnig cyfle i ddatblygu cynlluniau blaengar i amlhau defnydd iaith yn y blynyddoedd i ddod a'r man cychwyn amlwg yw cynyddu gwelededd yr iaith yn y ddinas. Mae diffyg gwelededd y Gymraeg mewn ardaloedd penodol yn bwydo diffyg defnydd. Mae mwy o welededd yn fodd o gynyddu defnydd – hyd yn oed os yw hynny ond ar y lefel fwyaf elfennol.

## 2. Pa fath o ofodau a chyfleoedd a allai annog mwy o ddefnydd o'r iaith, a chynyddu hyder o ran ei defnyddio, mewn ardaloedd lle mae defnydd o'r iaith o ddydd i ddydd yn gyfyngedig?

Mae Caerdydd mewn sefyllfa fanteisiol o fod yn brifddinas i Gymru gyfan (ac mae'n bwysig iddi adlewyrchu hynny), yn fychan o ran ôl troed daearyddol ond yn fawr ei phoblogaeth - felly mae mwy o bobl yma yn debygol o weld pob arwydd neu boster neu furlun Cymraeg. Bydd y Cynllun Datblygu arfaethedig yn gymorth i raddau wrth osod seiliau a disgwyliadau newydd ar gynlluniau datblygu newydd unigol - o ran rhoi ystyriaeth ddyladwy i'r iaith yn y lle cyntaf a sut ellid ei chryfhau, yn sicr o ran enwi ac arwyddion, ond hefyd maes o law gamau pellach mwy penodol i hyrwyddo'r Gymraeg a'i defnydd yn unol â Chanllawiau Datblygu Atodol a rhwymedigaethau cynllunio perthnasol gan osod mesurau i hyrwyddo'r Gymraeg yng nghanol strategaeth dwf a defnydd tir y Cyngor am y tro cyntaf erioed.

Ond mae'n rhaid i hynny gyd-fynd â chynlluniau hybu a hyrwyddo defnydd iaith eraill hefyd, tra'n parhau hefyd i weithio ar gynyddu niferoedd a dwysedd niferoedd siaradwyr y ddinas ymhellach. I'r perwyl hwnnw, yn amodol ar gytundeb aelodau etholedig y sir, y gobaith yng Nghaerdydd yw gallu cyflwyno strategaeth hybu ddiwygiedig flwyddyn yn gynharach na'r disgwyl yn 2026 i fynd law yn

llaw â chyflwyno'r CDLlN. Byddwn hefyd yn adolygu cynllun CSCA y Cyngor yr un pryd a fydd hefyd yn gallu ymgorffori ystyriaethau'n codi o'r Bil Addysg newydd sydd i'w gyhoeddi eleni wrth gwrs.

Y gobaith yw y bydd rhaglen bolisi fwy cydlynol o'r fath, â'r Gymraeg yn ganolog iddi, yn llwyfan gwell i adeiladu arno, i symud rhai o'r rhwystrau a chynyddu defnydd iaith dros y degawd nesaf.

Un syniad posib a allai gynyddu defnydd mewn ardal ddwys iawn o ran ei niferoedd dyddiol fyddai creu gofod daearyddol neu 'Gwr Cymraeg' pwrpasol yng nghanol y ddinas – tebyg i'r hyn sydd ar y gweill yn Nulyn - lle byddai anogaeth i sefydliadau a busnesau Cymraeg leoli eu hunain, lle byddai cymhelliant i fusnesau gynnig gwasanaeth Cymraeg, lle byddai cefnogaeth i sefydlu gofodau rhannu man gwaith Cymraeg, lle byddai pwyslais ar nwyddau a chynnyrch Cymraeg, ar gelfyddyd Gymraeg, ar berfformiadau cerddoriaeth fyw a pherfformwyr stryd Cymraeg – a hynny y tu mewn a thu allan i adeiladau. Byddai hyn yn rhoi cig go iawn ar esgyrn yr arwyddion Cymraeg a dwyieithog sydd yng nghanol y ddinas eisoes. Byddai'n llwyfan organig, yn fagned, yn atyniad twristaidd, yn gefnlen i fideos Tiktok, yn Dafwyl dyddiol.

O weld llwyfan i'r Gymraeg fel hyn yn llwyddo, byddai rhannau eraill o'r ddinas efallai am ei efelychu – yn y canolfannau ardal a lleol yn y maestrefi lle mae gwelededd y Gymraeg - gydag ambell eithriad - yn parhau'n sobor o denau o hyd.

Ond i wireddu cynllun fel hyn byddai angen sicrhau partneriaeth ariannol gadarn yn cynnwys cefnogaeth y llywodraeth, yr awdurdod lleol, rhanddeiliaid y Gymraeg yn y ddinas, asiantaethau hybu a thwristiaeth, byd busnes a noddwyr sector breifat helaeth.

Y maes arall sydd angen sylw ar fyrder yw cynyddu hyder pobl ifanc i ddefnyddio'r iaith sydd ganddynt. Mae eu cael i ddefnyddio'r iaith yn ddigymell o fewn ysgolion Cymraeg yn dalcen digon caled – heb gyfleoedd a gofod addas y tu allan i'r ysgol i ddefnyddio'r iaith mae'n dasg anoddach o lawer o ystyried nad Cymraeg yw iaith yr aelwyd i'r mwyafrif. Mae barn anecdotaidd nifer yn awgrymu bod y sefyllfa hon wedi gwaethygu yn ystod ac wedi'r pandemig.

Yn y lle cyntaf felly mae angen i ni ddechrau mesur defnydd iaith yn fwy gwyddonol i gael data a darlun cliriach o'r hyn sy'n digwydd ar lawr gwlad. Bydd hwnnw mae'n siŵr yn brosiect un ai i'r Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog newydd neu yn brosiect dan faner rhanbarthol Cymraeg i Bawb.

Mae Cymraeg i Bawb yn brosiect sydd wedi llwyddo i greu adnoddau newydd a rhannu arfer da ar draws rhanbarth y de-ddwyrain er mwyn hybu a hyrwyddo'r Gymraeg. Yn ystod y flwyddyn i ddod bydd y bartneriaeth ranbarthol yn edrych am brosiectau penodol i'w datblygu a bydd prosiectau i hybu defnydd iaith yn rhan o'r ystyriaeth bryd hynny.

**3. A allwch chi rannu enghreifftiau o fentrau neu weithgareddau llwyddiannus sydd wedi annog defnydd o'r Gymraeg mewn ardaloedd lle mae defnydd o'r iaith yn gyfyngedig?**

Er nad yn ardal fel y cyfryw, mae gweithleoedd hefyd yn fannau i'w targedu i gynyddu gwelededd a defnydd iaith. Rhaid i weithleoedd gael gafael ar ddata cywir ynghylch lefelau sgiliau iaith gweithwyr er mwyn gallu gweithredu ymyraethau addas a phenodol i geisio annog a hyrwyddo defnydd pellach – boed yn ffurfiol mewn cyfarfodydd neu'n anffurfiol ymhlith staff. Mae gallu sefydlu'r gwaelodlin yn gam angenrheidiol i allu sicrhau cynnydd. Mae cynllun ar waith gan Caerdydd Ddwyieithog ar hyn o bryd sy'n ceisio mynd i'r afael â hyn yng Nghyngor Caerdydd - sy'n swmp mawr o waith ar gyfer sefydliad a chyflogwr mor fawr â chyngor sir – ond yn waith angenrheidiol.

Mae yna weithgaredd Cymraeg yn digwydd y tu allan i'r ysgol mewn clybiau gwahanol ar y meysydd pêl-droed a rygbi ac ar lwyfannau perfformio amrywiol – ond canran fechan sy'n elwa ar y gweithgareddau yma. Ar wahân i ddarpariaeth yr Urdd, mae clwb CFTi yn fenter newydd wythnosol yn y ddinas i bobl ifanc sy'n cynnig gofod Cymraeg diogel a chroesawgar y tu allan i'r ysgol, ond mae angen cynyddu'r ddarpariaeth yma x 20 gwaith a mwy i wneud gwahaniaeth go iawn, sefydlu arfer newydd, estyn allan i bobl ifanc mewn ysgolion Saesneg sy'n astudio'r Gymraeg i'w cynnwys nhw hefyd ac yn yr un modd i dargedu cymunedau'r mwyafrif byd eang yn y ddinas sydd wedi eu tangynrychioli fel carfan o bobl ifanc sy'n siarad Cymraeg.

Mae'r gwasanaeth ieuenctid yn y sir wedi ei aildrefnu yn ddiweddar hefyd i weithredu ar lefel fwy cymunedol felly bydd gofyn gweithio gyda'r model hwnnw hefyd i hybu ac annog defnydd pellach o'r Gymraeg.

Mae Menter Caerdydd wrth gwrs wedi bod yn hynod weithgar yn y maes hwn ers blynyddoedd bellach, ar draws yr ystod oedrannau ac wedi cynyddu ei ffocws eleni ar gynnal gweithgareddau i bobl ifanc yn rhai o ardaloedd dwyrain y ddinas lle nad yw'r Gymraeg cyn gryfed. Ers Covid mae'r Fenter hefyd wedi cynyddu nifer y gweithgareddau ar-lein – sydd yn niwtral yn ddaearyddol ac ar gael i bawb.

Eto, mae siarad am 'ardal' ychydig yn artiffisial wrth drafod y brifddinas gan fod rhwydweithiau symud ar draws y ddinas o ran addysg, gwaith a chymdeithasu yn helaeth, felly prin y bydd y rhan fwyaf o drigolion yn cyfyngu eu hunain i un ardal benodol. e.e. mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion uwchradd Cymraeg yn teithio allan o'u cymdogaeth i dderbyn eu haddysg bob dydd. Yn yr un modd, os ydynt yn gallu, yn mynychu clybiau ar ôl ysgol neu rhyw weithgaredd arall gyda'r nos - hefyd yn fwy tebygol o olygu gorfod teithio i ran arall o'r ddinas. Ond rhaid cofio nad yw pawb yn gallu cyfranogi fel hyn yn yr un modd.

Ar lefel ehangach eto, mae digwyddiad Gyrfa Gymraeg ar ei thrydedd flwyddyn eleni – yn targedu myfyrwyr blwyddyn 12 Cymraeg y ddinas ac o bob rhan o'r de i ystyried addysg bellach ac uwch Cymraeg ac i feddwl am gyfleoedd gyrfa lle gallent fanteisio ar eu sgiliau iaith drwy gwrdd â chyflogwyr sydd yn awyddus i gyflogi siaradwyr Cymraeg fel nhw. Caiff y digwyddiad ei gynnal trwy bartneriaeth rhwng Caerdydd Ddwyieithog a phrifysgolion a cholegau'r ddinas. Er mai ond un diwrnod yw hwn, mae'n ddiwrnod mewn cyfnod yn eu bywydau pan fydd y myfyrwyr yn gwneud penderfyniadau pwysig ar ddewis pynciau a all bennu cyfeiriad gweddill eu bywydau - felly mae'n ymyriad amserol.

Mae'r bartneriaeth ar ben hyn wrthi'n datblygu rhaglen o ddigwyddiadau llai gyda Gyrfa Cymru i'w cynnal ar draws y flwyddyn o fewn ysgolion uwchradd Caerdydd i hyrwyddo cyfleodd addysg a chyflogaeth Cymraeg. Mae mwy o waith  i'w wneud ar y cynllun yn olrhain patrymau dewisiadau myfyrwyr dros amser ac i ategu'r ymyrraeth gyda negeseuon amserol a phwrpasol pellach er mwyn sicrhau eu bod nhw'n ymwybodol o'r cyfleon sydd iddynt ddefnyddio'u sgil Cymraeg yn eu gyrfaoedd yng Nghaerdydd yn y dyfodol. Gobeithir datblygu gwaelodlin data o ran dewisiadau disgyblion ysgolion Caerdydd wrth symud i addysg bellach ag uwch i gynnig darlun ystadegol o'r sefyllfa bresennol ac i fesur effaith wrth gyflwyno ymyraethau pellach.

**4. Sut y gallai technoleg ac offer digidol helpu i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, yn enwedig ymhlith y rhai sy'n defnyddio'r iaith yn anaml neu sydd â diffyg hyder?**

Byddai technoleg hwylus i fesur defnydd iaith yn erfyn defnyddiol. Rydym yn bwriadu manteisio ar y cynllun peilot diweddar ar Ynys Môn i fesur defnydd iaith yn y gymuned gan ganolbwyntio yn y lle cyntaf ar bobl ifanc. Y tebyg yw y bydd angen sawl math o ddull casglu gwybodaeth meintiol ac ansoddol i gael gwell gafael ar yr hyn sy'n digwydd ar draws yr ystodau oedran ac ar draws ardaloedd y ddinas hefyd o ran defnydd. Amser ac adnoddau fydd yr her fwyaf i sicrhau'r wybodaeth hon,.

Byddai siop un stop i gael pob Ap Cymraeg a phob Ap Saesneg sydd â rhyngwyneb Cymraeg yn gaffaeliad, tebyg i'r Pod Cymraeg. Mae casgliadau o Apiau i blant, neu gasgliadau thematig i'w canfod - ond mae'n mynd yn go denau wedyn.

Yn yr un modd sianeli YouTube Cymraeg fel bod modd dod o hyd iddynt mewn un man neu o leiaf i fynd iddynt o un man.

Dylid gofyn i bobl (pobl ifanc yn enwedig) pa Apiau hoffent eu cael yn Gymraeg ac annog mwy o ddatblygwyr Apiau i gynyddu yr hyn sydd ar gael yn y maes gydag ymgyrch hyrwyddo barhaus yn gefn iddynt.

Cystadlaethau fideos tiktok Cymraeg gyda gwobrau deniadol i'w hennill. Addasu i lwyfannau poblogaidd newydd wrth iddynt ddatblygu.

Sefydlu arfer o ddefnyddio Apiau Cymraeg yn gynnar (oed cynradd) – fel nad yw termau Cymraeg y llwyfannau yn ddieithr yn nes ymlaen. Apiau deniadol i oed yr arddegau.

Mae'r hyrwyddo'r Gymraeg trwy Apiau a llwyfannau cyfyngau cymdeithasol yn hollbwysig gan fod bywydau pobl ifanc cymaint mwy digidol nag yn y gorffennol. Trwy'r llwyfannau yma maent yn cyfathrebu ac yn byw llawer o'u bywydau – sy'n cael eu cyflwyno bron a bod yn llwyr drwy'r Saesneg. Mae hyn yn bwydo'r syniad bod y Gymraeg yn iaith yr ysgol yn unig a heb le yn y byd digidol sydd mor greiddiol i brofiad bywyd ein pobl ifanc.

Bydd y gwaith i gyflwyno'r Gymraeg ar y llwyfannau hyn yn heriol iawn, wrth gwrs, ac yn gofyn am weithio ar y cyd dwys. Mae hefyd yn hollbwysig sicrhau bod ein pobl ifanc yn rhan o'r gwaith

hwn, i rannu eu barn a'u syniadau â ni, ac i weithredu eu hunain fel pencampwyr y Gymraeg. Mae'r platfformau digidol yn rhan o brofiad pobl ifanc a'u hunaniaeth erbyn hyn ac mae'n rhaid sicrhau bod y llwyfannau hyn yn ganolog i'r gwaith hyrwyddo os ydym am weld pobl ifanc yn perchnogi a defnyddio'r Gymraeg ar y platfformau hyn.

**5. Pa effaith, yn eich barn chi, y mae digwyddiadau diwylliannol fel Eisteddfodau cenedlaethol neu wyliau Cymraeg yn ei chael ar y defnydd o'r Gymraeg, yn enwedig mewn ardaloedd sydd â llai o siaradwyr Cymraeg?**

Mae digwyddiad fel Tafwyl yn amlwg yn creu hygrededd bod y Gymraeg yn iaith fyw ac yn cael ei defnyddio tu fas i gatiau'r ysgol. Mae'n cadarnhau penderfyniad rhieni di-Gymraeg sy'n mynychu ynghylch dewis addysg Gymraeg i'w plant. Mae'r drws hefyd yn agored i siaradwyr di-Gymraeg ac ymwelwyr â'r ddinas fwynhau'r diwylliant Cymraeg mewn modd anffurfiol heb fod hynny'n ormod o her, oherwydd bod y pwyslais ar gerddoriaeth fyw a chyfleoedd perfformio i'r plant ac ar fwynhau yn gymdeithasol. I siaradwyr Cymraeg ar y llaw arall mae'n gyfle amlwg i dreulio un penwythnos (ac ambell noson ychwanegol efallai) yn siarad a chlywed tipyn mwy o Gymraeg na fydden nhw ar benwythnos arferol. Y tristwch efallai yw mai ond ar un penwythnos y flwyddyn y mae'n digwydd, er bod rhai mân ddigwyddiadau eraill wedi eu cynnal ar adegau gwahanol o'r flwyddyn 'dan faner' Tafwyl, megis digwyddiad comedi misol Laffwyl ym Mharc Fictoria ar nosweithiau Gwener.

Oherwydd ei faint ac am iddo feddiannu'r Bae am 10 diwrnod a'i fod am ddim ac yn agored i bawb hefyd, roedd traweffaith yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Bae yn 2018 yn amlwg. Ond nid yw'r Bae wedi gweld dim tebyg oddi ar hynny ac mae'r cof amdano yn dechrau pylu yn lleol. Yn lle hynny mae'r ardal yn ddibynnol ar bresenoldeb rhanddeiliaid fel yr Urdd, cynyrchiadau Cymraeg yng Nghanolfan y Mileniwm, presenoldeb y Senedd ac Ysgol Hamadryad i chwifio baner y Gymraeg o ddydd i ddydd mewn ardal sy'n gymharol wan o ran niferoedd siaradwyr.

Mae'r ailddatblygu sy'n digwydd yn yr ardal ar hyn o bryd gyda chodi arena newydd yn cynnig cyfle pellach i gynyddu gwelededd y Gymraeg yn yr ardal. Bydd gofyn felly i ni sicrhau llwyfan addas yno i'r Gymraeg pan ddaw'r datblygiad hwnnw yn weithredol. Ac yn yr un modd bydd ailagor Neuadd Dewi Sant yng nghanol y ddinas maes o law yn cynnig cyfle i ail-osod y llwyfan ar gyfer yr arlwy Gymraeg yno, ynghyd â datblygu ymhellach strategaeth Dinas Gerdd ehangach y ddinas.

**6. Sut y gellid addasu neu wella'r digwyddiadau hyn (boed yn rhai mawr neu fach o ran maint) i wasanaethu cymunedau â llai o siaradwyr Cymraeg yn well?**

O ran Tafwyl, mae mwy i'w wneud o ran cynyddu ymwybyddiaeth o'r ŵyl y tu allan i'r lleoliad ei hun, ac anodd mesur ei effaith y tu allan i ganol y ddinas yn gyffredinol yn y cymdogaethau a'r cymunedau ledled y ddinas. Efallai bod honno yn her arall, sef mynd â'r model allan i'r

cymdogaethau eu hunain a'u cael nhw i'w berchnogi – ond byddai angen adnoddau sylweddol pellach i wireddu hynny.

O ran yr Eisteddfod, mae'n sicr yn fwriad cael y Brifwyl yn ôl i Gaerdydd cyn gynted ag y bo modd!

Rhaid nodi bod digwyddiadau fel Tafwyl a'r Eisteddfod yn 2018 yn cael, ac wedi cael effaith gan eu bod wedi bod yn ddigwyddiadau agored ac am ddim. Tra bod heriau ariannol wrth gynnal unrhyw ddigwyddiad, yn enwedig y rhai mawr hyn, mae cost mynediad digwyddiadau yn rwystr arwyddocaol o ran cyfranogiad pob rhan o'r gymuned, yn enwedig y rhai sydd anoddaf eu cyrraedd yn aml. Mae'n rhaid profi naws a hwyl gwyliau Cymraeg iddynt gael effaith o fewn cymunedau ac mae angen ystyried sut orau i hybu mynediad iddynt. Mae mentrau eisoes i gynnig tocynnau am ddim ond dylid ystyried sut i hyrwyddo digwyddiadau mewn cymunedau lle mae siaradwyr Cymraeg yn llai amlwg. e.e. Gellid cynnal digwyddiadau hyrwyddo penodol o fewn y cymunedau hynny a chynnig cyfleodd i berfformwyr a bandiau o'r cymunedau hyn. Mae Tafwyl wedi bod yn gweithio gyda nifer o bartneriaid i wireddu mentrau o'r fath ac wedi bod yn llwyddiannus yn cael teuluoedd di-Gymraeg i fynychu i weld eu plant yn perfformio er enghraifft. Mae angen i ni greu partneriaeth a pherthynas gyda'n cymunedau amrywiol ar draws y flwyddyn er mwyn codi ymwybyddiaeth ac ennyn cyfranogiad cyfoethocach.

**7. A oes unrhyw faterion eraill yr hoffech dynnu sylw'r Pwyllgor atynt mewn perthynas â dull Llywodraeth Cymru o gefnogi'r Gymraeg mewn ardaloedd â llai o siaradwyr Cymraeg?**

Hybu ymgyrchoedd poblogaidd cenedlaethol fel bathodyn/cortyn gwddf oren siaradwyr Cymraeg, sticeri gwasanaeth Cymraeg i fusnesau eu defnyddio

- hysbysebion amrywiol yn targedu pobl ifanc a siaradwyr llai hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg sydd ganddynt,
- hysbysebion yn targedu rhieni sydd â'r Gymraeg i'w defnyddio o flaen eu plant – rhan bwysig o normaleiddio defnydd ym meddyliau plant
- hysbysebion penodol yn trafod buddion y Gymraeg i gymunedau mwyafrif byd eang a newydd-ddyfodiaid
- gwneud y Gymraeg yn ddiofyn yn ddewis cyntaf mewn cynifer o sefyllfaoedd a phosib
- annog awdurdodau lleol/mentrau iaith i gynnal arolygon meicro o ddefnydd iaith mewn cymdogaethau/cymunedau fel bod gwell darlun ar gael – fydd yn ei dro yn llywio dewisiadau gwell wrth flaenoriaethu cynlluniau hyrwyddo
- sicrhau cyllid digonol i ariannu mentrau cymunedol drwy gronfeydd fel yr SPF i sicrhau adnoddau ymarferol lle gall y Gymraeg ffynnu – boed yn adeiladau, busnesau, gwasanaethau – ond sydd yn rhwydwaith amlwg y gellir dibynnu arni i ddefnyddio a chlywed y Gymraeg yn lleol. Mannau lle gall rhai sydd yn newydd i'r ardal gael croeso a dod i deimlo'n rhan o'r gymuned (hy – nid bod y bywyd Cymraeg yn ryw fath o fydysawd

cyfochrog i'w bywyd go iawn nhw). Mae hyn yn rhan o hybu cydlyniant cymunedol yn ogystal â normaleiddio a chynyddu defnydd iaith.